# **Etholiad Senedd 2026:** Ein Maniffesto ar gyfer Dyfodol Ynni Carbon Isel, Fforddiadwy i Gymru

## Ein hymrwymiad i ddyfodol ynni carbon isel

Yn Wales & West Utilities, gwasanaethwn boblogaeth o 7.5 miliwn, gan gadw cymunedau yn ddiogel, yn gynnes ac wedi'u cysylltu bob un diwrnod o'r flwyddyn. A ninnau'n meddu ar rwydwaith sefydledig o bibelli sy'n ymestyn dros 35,000 cilometr, rydym yn cludo nwy ledled Cymru a de-orllewin Lloegr, ac yn cyflawni'n cyfrifoldebau fel rhan hanfodol o seilwaith ynni'r Deyrnas Unedig. Rydym yn falch o gefnogi'n cymunedau, yn pweru cartrefi, busnesau a diwydiannau gydag ynni y gallant ymddiried ynddo a dibynnu arno, gan gysylltu 57 o safleoedd cynhyrchu trydan i gynnal ynni adnewyddadwy i lifo pan nad yw'r haul yn tywynnu a phan nad yw'r gwynt yn chwythu.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb fel busnes rheoledig, cynaliadwy wrth gyflawni rôl allweddol yn y pontio i sero net erbyn 2050. Mae ein cenhadaeth yn eglur: darparu datrysiadau ynni carbon isel fforddiadwy, diogelu swyddi ac aelwydydd sy'n agored i niwed, ac ysgogi twf economaidd cynhwysol ledled Cymru. Dros dymor y Senedd nesaf, rydym wedi'n hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i uchafu gwerth y seilwaith nwy presennol a'r buddsoddiad yn y rhwydwaith dros genedlaethau. Wrth inni ddatblygu'r defnydd o hydrogen a biomethan mewn system ynni wedi'i datgarboneiddio, bydd gan y rhwydwaith ynni rôl allweddol mewn cynnal sicrwydd cyflenwadau i bobl Cymru a chynorthwyo i gynhyrchu pŵer pan fo'r galw yn uchel a phan fo cyfyngiadau ar ynni adnewyddadwy.

## Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru

Rhagwelwn Gymru yn arwain y Deyrnas Unedig o ran adeiladu system ynni garbon isel, deg, gadarn a fforddiadwy. Trwy gydweithio â llunwyr polisi, diwydiant a chymunedau, gallwn:

- **Ail-bwrpasu'r** rhwydwaith nwy presennol i ddarparu nwyon gwyrddach, yn cynnwys hydrogen a biomethan, a galluogi dewis i ddefnyddwyr mewn datrysiadau gwresogi carbon isel.
- **Uchafu** rôl y rhwydwaith nwy wrth ddiogel a chreu swyddi ym mröydd diwydiannol a chymunedau gwledig Cymru.
- **Cynllunio** ar gyfer pontio teg, fel nad oes yr un aelwyd yn cael ei anwybyddu a'i hepgor, yn cynnwys yr ~80% o gartrefi Cymru sydd ar hyn o bryd wedi'u cysylltu ac sy'n dibynnu ar y rhwydwaith nwy.
- **Cyfrannu** tuag at gynlluniau system gyfan sy'n cynorthwyo diwydiant Cymru i ddatgarboneiddio ac i ffynnu, gan gryfhau'r economi, cadwyni cyflenwi a chynhyrchiant lleol.

## Ein galwadau ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu

I wneud y weledigaeth hon yn realiti, galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Uchafu ac adeiladu ar rôl seilwaith ynni presennol Cymru, yn cynnwys y rhwydwaith nwy, wrth sefydlu Dyfodol Carbon Isel Cymru trwy:**
  Cydnabod pwysigrwydd seilwaith ynni presennol Cymru a lleoli rhwydwaith nwy wedi'i ddatgarboneiddio fel rhan o Gynllun System Ynni Cymru i gynorthwyo pontio cytbwys, hyblyg a chost effeithiol i sero net, gan ddarparu ynni carbon isel, hyblyg i gartrefi, busnesau a diwydiant, i roi dewis i ddefnyddwyr a rhoi chadernid masnachol.

- **Cyflymu Datblygiad Nwy Gwyrdd a Hydrogen yng Nghymru trwy:**
  Ymrwymo i ymchwil, datblygu a buddsoddi mewn hydrogen a biomethan i alluogi cynhyrchu, cymysgu, trosglwyddo, dosbarthu a storio ledled Cymru, gan sicrhau y gall arloesi yng Nghymru elwa o'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd a chyllid i gynhyrchu, cludo a storio hydrogen.

- **Ysgogi Eglurder Polisi a Chynllunio Ynni Lleol yng Nghymru trwy:**
  Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad eglur ar ddatgarboneiddio gwres, grymuso Cynlluniau Ynni Rhanbarthol a Lleol, a lleoli rhwydweithiau ynni Cymru – yn cynnwys Wales & West Utilities – fel partner strategol mewn trawsnewid i ynni adnewyddadwy yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

- **Diogelu Defnyddwyr a Sicrhau Pontio Teg i bobl Cymru trwy:**
  Cydnabod bod yr 85% o aelwydydd sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy mewn cynlluniau fydd yn diogelu aelwydydd sy'n agored i niwed oherwydd tlodi tanwydd ac ôl-ffitiadau costus, gan sicrhau tegwch a fforddiadwyedd trwy'r pontio ynni i gyd.

- **Cyflawni Cynlluniau Datgarboneiddio Diwydiannol a Phontio i Weithlu Cymru trwy:**
  Cynorthwyo dyraniad cyllid teg i Glystyrau Diwydiannol Cymru i ddatblygu datgarboneiddio diwydiannol ar gyflymdra ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu pibelli hydrogen, seilwaith trydan a chyfleusterau dal carbon fel rhan o ddatrysiad system gyfan ac a ategir gan lwybrau datblygu a hyfforddi sgiliau i ddiogelu swyddi a pharatoi'r gweithlu ar gyfer anghenion ynni'r dyfodol.

## Y buddion i Gymru

- **Sicrwydd Ynni:** Mae datblygu cynhwysedd nwy gwyrdd a hydrogen domestig yn lleihau dibyniaeth ar fewnforion ac mae'n cryfhau cadernid ynni yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.
- **Twf Economaidd a Swyddi:** Gall buddsoddi mewn hydrogen a biomethan greu miloedd o swyddi crefftus yng Nghymru, gan gynorthwyo clystyrau diwydiannol ac economïau gwledig.
- **Cyflawni Sero Net:** Mae rhwydwaith nwy a sylfaen ddiwydiannol bresennol Cymru yn darparu llwyfan cost effeithiol ar gyfer datgarboneiddio, gan gyflymu cynnydd tuag at dargedau 2050.
- **Pontio Teg:** Bydd arloesi sy'n trosoli'r buddsoddiad presennol yn y rhwydwaith nwy yn sicrhau na chaiff cymunedau Cymru eu hanwybyddu a'u hepgor, gan gynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr gyda phenderfyniadau ynni a diogelu aelwydydd sy'n agored i niwed.

## Gweithredu ar y cyd ar gyfer dyfodol gwyrddach

Anogwn Lywodraeth nesaf Cymru, llunwyr polisïau, arweinwyr diwydiant a chymunedau i ymuno â ni yn ein cyfraniad tuag at ddyfodol ynni lle mae nwyon gwyrdd, yn cynnwys hydrogen a biomethan, yn ffurfio rhan o'r ystod o ddatrysiadau ynni cynaliadwy i bweru dyfodol Cymru. Gyda'n gilydd, gallwn:

- Datblygu map ffordd eglur ar gyfer nwyon gwyrdd a hydrogen.
- Cefnogi penderfyniadau mewn buddsoddi yn ein seilwaith sy'n galluogi datgarboneiddio diwydiannol trwy fabwysiadu hydrogen.
- Hyrwyddo tegwch a chynnig dewis trwy gynllunio i gynorthwyo a diogelu aelwydydd sy'n agored i niwed yn ystod y trawsnewid i ynni adnewyddadwy.
- Cydweithredu i ddatgloi cyfleoedd gwledig a chreu economi gwyrdd ffyniannus trwy gynorthwyo i uwchraddio'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu biomethan.

## Edrych Tua'r Dyfodol

Bydd y pum mlynedd nesaf yn hanfodol i osod sylfeini cadarn ar gyfer cyfeiriad ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Mae rôl nwy yn y pontio i sero net ac wrth uwchraddio a mabwysiadu biomethan a hydrogen yn cynnig ystod o ddatrysiadau i gyflawni targedau sero net y gall pobl Cymru elwa ohonynt. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru, swyddogion, cymunedau polisi a diwydiant i symbylu datrysiadau ynni cyfunol, cryf i wasanaethu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

**Am ragor o fanylion** ac i drefnu rhagor o drafodaeth am ein gweledigaeth ar gyfer ynni yng Nghymru, a'r cymorth y gallwn ei ddarparu, cysylltwch â: Ross.gregory@wwutilities.co.uk , os gwelwch yn dda.